**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024 am 09:30, trwy gyfrwng Zoom**

**YN BRESENNOL**

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Y Cynghorydd Gwynfor Owen (gadawodd am 10:15)
Dafydd Edwards, Trysorydd
Gareth Owens, Clerc Monitro (gadawodd am 10:30)

Cynrychiolwyr y Cyflogeion:
Dawn Docx, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân
Paul Kay, Cymdeithas y Swyddogion Tân (Cadeirydd)

Ymgynghorwyr
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Beccy Marfleet, Swyddog Pensiynau
Kevin Gerard, Cronfa Bensiwn Dyfed
Kim Jeal, Arweinydd Technegol Pensiynau y Diffoddwyr Tân

Cofnodydd
Lisa Allington, Cynorthwyydd Gweithredol

## 1 YMDDIHEURIADAU

1.1 Cynigiwyd ymddiheuriadau ar ran Geraint Evans, Cynrychiolydd y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS) a Terry Ledden, Undeb y Brigadau Tân (FBU). Derbyniwyd yr ymddiheuriadau hynny. Nodwyd nad oedd cworwm yn y cyfarfod, ac er y gallai'r Bwrdd ystyried mwyafrif eitemau'r agenda, ni allai uwchgyfeirio materion at sylw'r Awdurdod.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

3.1 Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2024 yn wir a chywir.

3.2 Cadarnhaodd PSTC MacArthur, gan gyfeirio at baragraff 5.5 yn y cofnodion, fod y fersiwn diwygiedig o Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr

Awdurdod) a'i fod wedi'i gymeradwyo. Byddai'n awr yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

**4 ADRODDIAD DIWEDDARU – AELODAETH Y CYNLLUN**

4.1 Cyflwynodd Beccy Marfleet Adroddiad Diweddaru Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Pensiwn Lleol am faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

4.2 Cydnabuwyd y byddai mwy o gymhlethodau o ran cofnod cyflogres drwy gydol oes weithio cyflogai yn peri mwy o gymhlethdodau o ran y broses bensiwn, a diolchwyd i Beccy Marfleet a'i thîm am eu gwaith caled yn ymdrin â'r dasg gymhleth a heriol hon.

4.3 Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai unigolyn yn cael ei gofrestru'n awtomatig yn y cynllun pensiwn ar adeg eu penodi. Byddai'n rhaid iddynt ymeithrio o'r cynllun pe na byddent yn dymuno cyfrannu a gallai hynny ddigwydd oherwydd sawl rheswm, ond yn aml iawn, byddai'n ymwneud â'r gost. Pe bai unigolyn yn ymeithrio o'r cynllun, byddai gwaith yn cael ei wneud gyda hwy er mwyn pwysleisio bod y cynllun yn ehangach na phensiwn yn unig, a bod buddion eraill megis Marwolaeth mewn Gwasanaeth. Pe byddent yn penderfynu parhau i ymeithrio o'r cynllun, byddent yn cael eu hailgipio gan y broses gofrestru awtomatig a fyddai'n digwydd bob pedair blynedd.

4.4 Pwysleisiwyd ei bod yn holl bwysig o ran gweithredu'r cynllun pensiwn fod cynifer o bobl â phosibl yn cael eu cofrestru; fodd bynnag, byddai gwaith bob amser yn cael ei wneud gydag unrhyw un a fyddai'n dewis ymeithrio o'r cynllun er mwyn pwysleisio manteision bod yn rhan o'r cynllun iddynt.

4.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad;**

**5 ADRODDIAD DIWEDDARU – GWEINYDDWR**

6.1 Cyflwynodd Kevin Gerard adroddiad gweinyddu pensiynau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) – Gorffennaf 2024. Nod yr adroddiad oedd cynnig diweddariad ar gynnydd nifer o brosiectau oedd yn cael eu cynnal ar yr un pryd, ynghyd â darparu gwybodaeth am faterion perthnasol yn ymwneud â gweinyddu buddion y cynllun.

5.2 Gofynnwyd faint o blith y 925 o ddefnyddwyr cofrestredig Fy Mhensiwn Ar-lein oedd yn ddiffoddwyr tân ar hyn o bryd, a chadarnhawyd fod 52% o'r rhai oedd yn ddiffoddwyr tân ar hyn o bryd wedi'u cofrestru i ddefnyddio Fy Mhensiwn Ar-lein. Awgrymwyd y gallai cyrff cynrychioliadol y gweithwyr weithio gyda'r staff yn y gorsafoedd er mwyn hyrwyddo porth 'Fy Mhensiwn Ar-lein' ac annog pobl i fewngofnodi.

5.3 Cadarnhaodd Kevin Gerard fod y Rhaglen Dangosfwrdd Pensiynau newydd yn cael ei sbarduno gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) er mwyn darparu porth ar-lein i gynilwyr i'w galluogi i weld yr holl wybodaeth am eu pensiynau mewn un lle yn y dyfodol. Yn y cyfamser, dylid annog aelodau gweithredol y cynllun i ddefnyddio'r cyfleuster Fy Mhensiwn Ar-lein, i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r broses ar-lein pan ddaw'n bryd iddynt ymddeol, gan sicrhau bod y broses yn fwy hwylus iddynt.

5.4 Gofynnodd PSTC MacArthur pryd y gellid lansio'r gallu i aelodau lofnodi eu holl ddogfennau pensiwn yn electronig, ac ymatebodd Kevin Gerard nad oedd dyddiad wedi'i bennu eto i weithredu hynny; fodd bynnag, hyderid y byddai'r gwasanaeth ar gael i'r aelodau ymhen 8-12 mis.

5.5 Mynegwyd pryder ynghylch y cynnydd mewn ystadegau ar gyfer gwaith ar y gweill, ac er y cydnabuwyd bod y cynnydd hwn yn ddealladwy, a bod gwaith brys i'w weld yn cael ei flaenoriaethu, cytunwyd y dylid parhau i fonitro'r sefyllfa'n fanwl er mwyn sicrhau y gellid darparu rhagor o gymorth pe bai hynny'n ofynnol. Cadarnhaodd PSTC MacArthur fod adnoddau yn broblem ledled y sector cyfan, oherwydd bod angen set benodol o sgiliau er mwyn gallu mynd i'r afael â'r materion pensiynau hynod gymhleth hyn.

5.6 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi cynnwys yr adroddiad;**
- **ii) hyrwyddo adnodd Fy Mhensiwn Ar-lein ymhlith y staff drwy gyfrwng y Crynodeb Wythnosol;**
- **iii) sicrhau bod adnodd Fy Mhensiwn Ar-lein yn cael ei hyrwyddo'n helaeth pan fydd unigolion yn ymuno â'r cynllun pensiwn, a**
- **iv) crybwyll hyrwyddo Fy Mhensiwn Ar-lein wrth y cyrff Cynrychioliadol yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Ymgynghori a Thrafod.**

## 6 DIWEDDARIAD YNGHYLCH MATERION CYFREITHIOL

6.1 Fe wnaeth Kim Jeal, Arweinydd Technegol Pensiynau y Diffoddwyr Tân, gyflwyno ei diweddariad ynghylch materion cyfreithiol a oedd yn nodi’r amserlenni statudol a bennwyd yn sgil y newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth Cynlluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus, ac yn fwy penodol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Gelwir y rhain gan amlaf yn ymarferion rhwymedi pensiwn McCloud ac O'Brien (Matthews 2).

6.2 Cyhoeddwyd mai 31 Hydref 2025 oedd y dyddiad cysylltu oedd wedi’i bennu ar gyfer Prosiect Dangosfwrdd Pensiynau DWP ar gyfer cynlluniau yn y Sector Tân.

6.3 Gofynnodd un aelod beth fyddai’n digwydd pe methid â bodloni terfyn amser. Cadarnhaodd Kim Jeal fod nifer o derfynau amser statudol, a phe na allai’r Gwasanaeth fodloni unrhyw un o’r rhain neu pe na bai’n gwneud hynny (naill ai’n llawn neu’n rhannol), byddai’n ofynnol iddynt hwy (ac i’r gweinyddwyr) hysbysu’r Rheoleiddiwr Pensiynau am y methiant hwnnw gan fanylu ar beth oedd wedi digwydd, yr achos, beth oedd yn cael ei wneud i sicrhau na fyddai hynny’n digwydd eto, ac i sicrhau bod y gweithiwr yr effeithid arno yn cael y canlyniad a ddymunid.

6.4 Rhoddwyd mesurau cadarn ar waith gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a oedd yn gallu dirwyo sefydliadau a oedd yn parhau i fethu â bodloni terfynau amser, neu rai na fyddai’n rhoi gwybod am fethiant o’r fath. Er enghraifft, pe bai'r Gwasanaeth yn llwyddo i gynhyrchu'r holl Ddatganiadau Buddion Blynyddol (ABS) ac wedi methu â darparu un neu ddau yn unig, byddai hyn yn cael ei ystyried yn amherthnasol; fodd bynnag, byddai angen cofnodi hynny o hyd a dylid ystyried y posibilrwydd o fynd ati’n wirfoddol i hysbysu’r rheoleiddiwr am hynny.

6.5 Nodwyd bod y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) yn cydnabod y risg hon a bod trafodaethau rhagarweiniol wedi’u cynnal ynglŷn â hyn gyda'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Pe methid â bodloni terfyn amser, byddai mesurau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y bobl y byddai hynny’n effeithio arnynt yn cael eu nodi a’u cynorthwyo.

6.6 Cytunai’r aelodau bod cyfathrebu'n hollbwysig drwy gydol y broses gyfan a diolchwyd i Kim am ei hadroddiad cynhwysfawr.

6.7 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad; a**

**ii) nodi'r rhwymedigaeth statudol a osodir ar Reolwr y Cynllun i sicrhau bod yr holl amserlenni ar gyfer y 3 phrosiect cenedlaethol yn cael eu bodloni.**

**7 Y GOFRESTR RISG**

7.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur adroddiad y Gofrestr Risg, a oedd yn rhoi diweddariad i Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol ar y trefniadau rheoli risg. Archwiliwyd a thrafodwyd y Gofrestr Risg yn fanwl.

7.2 O ran data anghyflawn neu anghywir ynghylch aelodau, gofynnwyd pa gamau oedd yn cael eu cymryd i olrhain unigolion os na ellid cysylltu â hwy yn eu cyfeiriad diwethaf. Ymatebwyd bod y Gwasanaeth yn cymryd pob cam posibl i olrhain lleoliad unigolion ac y byddai'r rhain yn cael sylw fesul achos.

7.3 Cadarnhaodd Kevin Gerard fod Cronfa Bensiwn Dyfed yn dal i ddefnyddio gwasanaethau cwmni a oedd yn gallu olrhain bwriad unigolyn i adleoli drwy fonitro chwiliadau eiddo, ymhlith pethau eraill. Pe nodid bod unigolyn wrthi'n prynu eiddo, byddid yn cysylltu â hwy i ofyn a oeddent yn symud tŷ a beth fyddai eu cyfeiriad newydd at ddibenion gohebu.

7.4 Mynegwyd pryder hefyd y gellid parhau i dalu buddion i aelod ymadawedig. Cadarnhaodd Kevin Gerard fod Cronfa Bensiwn Dyfed hefyd yn talu am ddefnyddio gwasanaeth o'r enw 'Dywedwch Wrthym Unwaith', gan olygu, pan fyddai marwolaeth yn cael ei chofrestru yn Swyddfa'r Cofrestrydd, y byddai'r manylion yn cael eu llwytho i gronfa ddata genedlaethol. Yna, byddai Cronfa Bensiwn Dyfed yn cysylltu â'r gronfa ddata hon i ganfod a oedd aelod o'r cynllun wedi marw. Penderfynwyd cofnodi hyn fel risg ar y Gofrestr Risg, ynghyd â'r camau oedd yn cael eu cymryd i liniaru'r risg honno.

7.5 Penderfynwyd hefyd y dylid ychwanegu 'Methu â Chyfathrebu'n Effeithiol â Budd-ddeiliaid' at y Gofrestr Risg, ynghyd â chamau lliniaru, oherwydd, er bod hyn wedi'i ymgorffori mewn eitemau eraill, roedd yn ddigon pwysig i'w hychwanegu fel risg ar ei phen ei hun. Cytunwyd y dylid ychwanegu 'Cyfathrebu â Budd-ddeiliaid' hefyd fel eitem barhaol ar agendâu cyfarfodydd y dyfodol.

7.6 **Penderfynwyd:**

**i) Ystyried a chymeradwyo'r asesiad o'r risgiau gweithredol sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân;**

**ii) ychwanegu 'Taliadau Posibl i Aelodau sydd wedi marw' at y Gofrestr Risg, ynghyd â chamau lliniaru;**

**iii) ychwanegu 'Methu â Chyfathrebu'n Effeithiol â Budd-ddeiliaid' at y Gofrestr Risg, ynghyd â chamau lliniaru; ac**

iv) **ychwanegu 'Cyfathrebu â Budd-ddeiliaid' fel eitem barhaol ar agendâu cyfarfodydd y dyfodol.**

## 8 BWRDD CYNGHORI'R CYNLLUN

8.1 Rhoddodd PSTC MacArthur ddiweddariad llafar ynghylch gwaith Bwrdd Cynghori'r Cynllun (SAB).

8.2 Dywedwyd wrth yr aelodau bod gwaith y Bwrdd Cynghori fel arfer yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r materion yr oedd Bwrdd Pensiwn Lleol y Gwasanaeth yn eu cwmpasu. Roedd cyfarfod eithriadol wedi'i gynnal yn ystod yr wythnos flaenorol er mwyn trafod cyfraddau cyfraniadau gweithwyr yn y dyfodol. Fel cyd-destun, pennwyd cyfraddau cyfraniadau y cyflogwr gan ddefnyddio prisiad Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) ac roedd y rhain wedi cynyddu o fis Ebrill 2024. Canfuwyd nad oedd yr incwm o gyfraniadau'r gweithwyr yn ddigon i gyfateb ag ochr y gweithwyr yn y cynllun pensiwn yn effeithiol, ac felly roedd gwaith wedi'i wneud gan yr actiwarïaid ynghylch aelodaeth bresennol y cynllun. Felly byddai argymhellion i gynyddu maint cyfraniadau'r gweithwyr yn cael eu cyflwyno gan y Bwrdd Cynghori, â'r bwriad o ailbennu cyfraddau gweithwyr o fis Ebrill 2025.

8.3 Credai'r aelodau ei bod yn bwysig sicrhau bod y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cyfranogi mewn unrhyw ymgynghoriad ynghylch cynnydd yng nghyfraddau gweithwyr, a phan fyddai'r gyfradd yn hysbys, byddai cyfathrebu effeithiol â'r staff yn hanfodol.

8.4 Fel rhywbeth cadarnhaol, ystyrid y byddai hyn yn gyfle gwych i fanteisio ar y gallu i hoelio sylw aelodau'r cynllun, ac y dylid defnyddio hyn i gynnal sgyrsiau am faterion eraill ar yr un pryd. Cydnabuwyd bod risg y gallai unigolion feddwl na fyddent yn gallu fforddio'r cyfraniadau mwyach ar ôl i gyfraddau cyfraniadau gynyddu. Roedd y modelu ar hyn o bryd yn awgrymu y byddai'r cynnydd yn weddol fach; fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei ailystyried pan fyddai rhagor o wybodaeth ar gael.

8.5 Awgrymwyd y gallai fod yn fuddiol creu map ffordd yn amlygu'r effaith ganolig yn y tymor byr a'r buddiannau a'r canlyniadau hirdymor. Rhoddwyd sicrwydd y byddai GAD, fel rhan o'r ymarfer ymgynghori a'r dadansoddiad, yn gweithredu rhai senarios penodol megis beth fyddai'r effaith ar ddiffoddwr tân a oedd wedi gwasanaethu am gyfnod cyfartalog, ar sail tâl misol a'r effaith ar eu pensiwn at y dyfodol. Byddai GAD eisiau llunio nifer o senarios y gallai'r Gwasanaeth fynd ati i'w defnyddio er mwyn cyfathrebu â staff yn y dyfodol. Byddai'n holl bwysig helpu aelodau'r cynllun i ddeall pam mae angen y cynnydd mewn

cyfraniadau, a manteision unrhyw gynnydd, iddynt hwy ac i'r gronfa at y dyfodol.

8.6 Rhoddwyd sicrwydd nad oedd y sefyllfa hon yn unigryw i'r Gwasanaeth, a'i fod yn fater ar lefel Cymru gyfan a dweud y gwir, a bod materion tebyg yn digwydd ar draws y DU mewn cynlluniau pensiwn sawl proffesiwn. Hyderid y byddai'r Bwrdd Cynghori yn llunio rhywfaint o ohebiaeth oherwydd byddai trosglwyddo'r neges i aelodau'r cynllun yn holl bwysig ar yr adeg honno. Roedd Bwrdd Cynghori Lloegr a Bwrdd Cynghori Cymru yn cydweithio i sicrhau eu bod yn defnyddio'r un dull.

8.7 Mynegodd yr Aelodau eu pryder y byddai'r cynnydd hwn mewn cyfraniadau gweithwyr yn arwain at hawliad cyflog uwch, gan effeithio ar gyllideb yr Awdurdod Tân ac Achub a'r ardoll ar awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Ystyrid y byddai cyfathrebu ynghylch y mater hwn yn holl bwysig oherwydd gallai'r aelodau hynny o'r cynllun a oedd yn gweithio yn awr ac yn ymddeol rywbryd yn y dyfodol deimlo eu bod yn talu am yr holl heriau cyfreithiol yr oedd yr undebau wedi'u cyflwyno, a bod hyn wedi ychwanegu at gost y cynllun ar gyfer pobl a oedd yn ymddeol yn awr. Er mwyn osgoi'r sefyllfa hon, byddai angen meddwl yn ofalus am gyfathrebiadau a fyddai'n cael eu llunio ar y lefel genedlaethol.

8.8 Cytunwyd y dylid monitro'r sefyllfa genedlaethol yn fanwl ac y dylid cyfleu unrhyw adborth yng nghyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn y dyfodol.

8.9 **PENDERFYNWYD:**

**i) monitro'r sefyllfa genedlaethol mewn perthynas â chynnydd yng nghyfraniadau gweithwyr; a**
**ii) sicrhau bod cyfathrebu effeithiol yn digwydd cyn gynted ag y byddai unrhyw gynnydd yn cael ei gyhoeddi.**

## 9 MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO AT SYLW'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

9.1 Nid oedd unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at sylw'r Awdurdod.

## 10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

10.1 Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 1 Hydref 2024 am 09:30.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:37